

Prifysgol Bangor

Datganiad sefyllfa ar Anifeiliaid Cymorth/Anifeiliaid Therapi/Anifeiliaid Cefnogaeth Emosiynol

Cŵn Cymorth

Mae Cŵn Cymorth wedi'u hyfforddi'n arbennig i gyflawni dyletswyddau penodol i bobl anabl. Mae'r anifeiliaid hyn wedi'u cynnwys dan ddeddfwriaeth (Deddf Cydraddoldeb, 2010) ac fe'u caniateir yn gyfreithiol i fod gyda'u perchennog, partner neu eu hyfforddwr bob amser ymhob man (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2017).

Mae hyn yn golygu bod cŵn sydd wedi'u hyfforddi a'u cofrestru gydag un o'r Aelod-Sefydliadau a restrir gan Assistance Dogs International (ADI) neu Assistance Animals UK yn bodloni'r meini prawf hyn.

Ar hyn o bryd mae'r sefydliadau canlynol wedi'u cofrestru'n aelodau llawn o ADUK:

- [Canine Partners](#)
- [Dog A.I.D](#)
- [Dogs for Good](#)
- [Cŵn Tywys](#)
- [Cŵn Clywed i Bobl Fyddar](#)
- [Cŵn Canfod Cyflyrau Meddygol](#)
- [Cŵn Cefnogi](#)
- [The Seeing Dogs Alliance](#)

(Assistance Dogs UK, 2018)

Cŵn Therapi ac Iechyd Meddwl

Mae cynnydd cynyddol mewn defnyddio 'anifeiliaid therapi' neu 'anifeiliaid cefnogaeth emosiynol' i bobl ag ystod o anawsterau gan gynnwys problemau iechyd meddwl ac awtistiaeth. Ond nid yw'r anifeiliaid hyn wedi'u hyfforddi'n benodol i gyflawni unrhyw dasg benodol, ond yn hytrach, eu swyddogaeth yw bod yn gysur neu'n gefnogaeth i'r person ag anabledd. Er bod hyn yn wahanol i anifail anwes, nid oes statws cyfreithiol i'r anifeiliaid hyn ar hyn o bryd yn y DU.

Mae'r datganiad canlynol gan Assistance Dogs UK ar eu gwefan, "...nid oes rhaid i gŵn cefnogaeth emosiynol gael unrhyw hyfforddiant arbenigol ac nid ydynt yn cael eu cydnabod mewn unrhyw ran o'r byd fel cŵn cymorth. Nid yw ADI, y corff byd-eang sy'n cynrychioli rhaglenni cŵn cymorth, yn ystyried cŵn cefnogaeth emosiynol fel cŵn cymorth. O ganlyniad, nid oes hawl gan berchnogion cŵn cefnogaeth emosiynol ddweud bod gan eu cŵn hawliau mynediad cyhoeddus yn y DU ar sail 'addasiadau rhesymol' sy'n berthnasol i gŵn cymorth."

Maent hefyd yn nodi, "Nid oes unrhyw elusennau cŵn cymorth achrededig ADUK ar hyn o bryd sy'n hyfforddi cŵn i bobl â phroblemau iechyd meddwl lle mai dyma'r unig anabledd."
(Assistance Dogs UK, 2018)*

Safbwynt Prifysgol Bangor

Felly safbwynt Prifysgol Bangor am y sefyllfa hon yw bod rhaid i unrhyw anifail sy'n mynd gyda myfyriwr i'r brifysgol fod yn Gi Cymorth cofrestredig er mwyn cael hawl i fod ar safleoedd y brifysgol, yn unol â'r gyfraith. Ni chaniateir i unrhyw anifeiliaid cymorth therapi/cefnogaeth emosiynol sydd heb eu cofrestru fod gyda myfyrwr yn y brifysgol, neu gael eu cadw yn llety'r brifysgol.

**Cydnabyddir bod sefydliadau eraill yn hyfforddi anifeiliaid cymorth ac os gellir darparu gwaith papur perthnasol, caiff y rhain eu hystyried yn unigol.*

Cyfeiriadau

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2017) *Cŵn cymorth: Arweiniad i bob busnes*. Gellir ei gyrchu trwy

Assistance Dogs UK (2018) <http://www.assistancedogs.org.uk/faqs>